Mr Alun John

Medi 1988 oedd hi pan gychwynnodd Alun John ar ei gyfnod fel prifathro yn Ysgol Penrhyn-coch. Erys y bore hwnnw yn fyw yn y cof gan y bu'n ddechrau cyfnod o gydweithio hynod o ddifyr.

Yn frodor o'r Rhondda, symudodd ei deulu i Dal-y-bont pan oedd yn grwtyn ifanc ac yma yn hen Sir Aberteifi y cafodd ei addysg cyn troi am y coleg i'w gymhwyso fel athro. Wedi cyfnod yn gweithio dros y ffin dychwelodd i'r Sir i dreulio gweddill ei yrfa fel athro a phrifathro yn Ysgolion Penparcau, Y Borth ac yna i Benrhyn-coch.

G□r hamddenol oedd Alun, yn gymeriad unigryw, llawn hiwmor ac yn ymddangos fel nad oedd dim yn ei boeni. Perthynai iddo nifer o nodweddion traddodiadol ynghyd â menter yr oes fodern. Bu'n gyfaill da,